## Telerau ac Amodau ar gyfer defnyddio Henebion Hanesyddol

Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Gweinidogion Cymru. Ei nod yw hyrwyddo cadwraeth amgylchedd hanesyddol Cymru a gwerthfawrogiad ohono.

1. Mae'r Llogwr yn ymrwymo i gadw Gweinidogion Cymru wedi'u hindemnio'n llawn ac yn effeithiol yn erbyn pob gweithred, achos, cost, hawliad, galw a rhwymedigaeth (p'un a yw'n deillio o unrhyw ddifrod, anghyfleustra neu aflonyddwch ai peidio) sy'n deillio o neu'n gysylltiedig mewn unrhyw ffordd neu mewn cysylltiad â ffilmio neu'r gweithgaredd llogi a nodir isod (“y Gweithgaredd”) yn yr Heneb i'r graddau lle mae esgeulustod, gwall neu anwaith y Llogwr yn ei achosi'n uniongyrchol.

2. Mae’r Llogwr hefyd yn ymrwymo i indemnio Gweinidogion Cymru yn llawn ac yn effeithiol rhag difrod neu anaf a achosir i unrhyw berson, sy'n deillio mewn unrhyw ffordd o'r Gweithgaredd yn yr Heneb neu mewn cysylltiad ag ef i'r graddau y cafodd ei achosi’n uniongyrchol drwy esgeulustod, gwall neu anwaith y Llogwr.

3. Mae'r Llogwr yn ymrwymo i beidio ag achosi na chaniatáu unrhyw ddifrod i'r Heneb ac i gadw Gweinidogion Cymru wedi’u hindemnio’n llawn ac yn effeithiol yn erbyn yr holl rwymedigaethau, costau, hawliadau a gofynion sy'n deillio o unrhyw ddifrod neu mewn cysylltiad ag unrhyw ddifrod sy'n cael ei achosi i'r Heneb yn ystod eu cyfnod mynediad, i'r graddau y cafodd ei achosi’n uniongyrchol gan weithred esgeulus neu anwaith y Llogwr, eu gweithwyr neu eu hasiantau. Bydd y Llogwr hefyd yn atebol am yr holl gostau a threuliau cyfreithiol sy'n codi yn unol ag unrhyw golled neu ddifrod neu anaf personol (gan gynnwys marwolaeth) sy'n deillio o'r Gweithgaredd neu mewn cysylltiad ag ef i'r graddau bod y golled, difrod neu anaf yn cael ei achosi’n uniongyrchol gan weithred esgeulus neu fwriadol neu anwaith y Llogwr, eu gweithwyr neu eu hasiantau.

4. Bydd y Llogwr yn defnyddio'r Heneb ar ei risg ei hun ac ni fydd unrhyw atebolrwydd yn gysylltiedig â Gweinidogion Cymru o ran unrhyw golled neu ddifrod i eiddo'r Llogwr, nac i unrhyw westeion y Llogwr yn yr Heneb nac mewn unrhyw ffordd sy'n deillio o gyflwr yr Heneb, AC EITHRIO na fydd y Llogwr na Gweinidogion Cymru yn cyfyngu ar eu hatebolrwydd am farwolaeth neu anaf personol a achosir gan esgeulustod neu unrhyw atebolrwydd arall na ellir ei eithrio na'i gyfyngu o dan y gyfraith berthnasol.

5. Rhaid i’r Llogwr wneud yr holl drefniadau ymlaen llaw gyda Cadw gan sicrhau bod Cadw wedi ei fodloni ac nac oes unrhyw gost iddo, cyn y gellir cynnal y gweithgaredd yn yr Heneb. Os bydd Cadw o'r farn bod angen darparu unrhyw wasanaeth neu wneud cyflenwadau arbennig mewn cysylltiad â'r gweithgaredd, boed ar gais y Llogwr ai peidio, bydd yn ofynnol i'r Llogwr ad-dalu Cadw am ei gostau.

6. Rhaid i'r Llogwr drefnu Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus llawn am gyfnod y gweithgaredd. Rhaid i hyn gynnwys yswiriant ar gyfer difrod esgeulus a damweiniol i'r Heneb gan y Llogwr, a bod hyn yn isafswm o £5miliwn. Rhaid i'r Llogwr ddarparu copi o'r dystysgrif yswiriant i Cadw cyn y gellir cynnal y gweithgaredd.

7. Ni chaniateir cysylltu unrhyw offer i'r gwaith maen yn yr Heneb ac ni chaniateir aflonyddu’r ddaear yn yr Heneb. Gall Cadw, yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, ei gwneud yn ofynnol i fesurau diogelu gael eu rhoi ar waith i ddiogelu'r ddaear a'r gwaith maen. Os yw'r Llogwr yn dymuno ymgymryd â cheisiadau arbenigol sy'n gysylltiedig â ffilmio arbenigol megis defnyddio effeithiau arbennig neu weithgareddau mewn ardaloedd sensitif sydd wedi’u gosod, yna bydd hyn yn destun asesiad risg a gall fod yn ofynnol i'r Llogwr gomisiynu cadwraethwr. Rhaid i geisiadau i begio offer i mewn i’r ddaear gael eu cymeradwyo gan Cadw cyn i'r gweithgaredd ddigwydd.

8. Ni fydd y Llogwr yn defnyddio'r Heneb ar gyfer unrhyw weithgaredd anghyfreithlon, peryglus, anghyfiawnadwy o sarhaus neu amhriodol fel arall; ar gyfer ffilmio unrhyw olygfeydd o natur rywiol, sarhaus neu amhriodol, a rhaid bod yn gyson yn erbyn safonau a dderbynnir yn gyffredinol neu sy'n debygol o niweidio enw da Gweinidogion Cymru yn annheg neu’n anghywir.

9. Rhaid i'r Llogwr bob amser ddilyn cyfarwyddiadau'r ceidwad a/neu arolygwyr neu dîm masnachol Cadw, wrth ffilmio neu dynnu lluniau mewn digwyddiad neu gloddio yn yr Heneb. Pan fo Cadw wedi cyfarwyddo bod angen cael trwyddedau ychwanegol ar gyfer perfformiad cerddoriaeth neu werthu alcohol, y Llogwr sy'n gyfrifol am sicrhau cael

y rhain a bod copïau'n cael eu darparu i Cadw cyn i'r gweithgaredd ddigwydd.

10. Rhaid i'r Llogwr ofyn am gymeradwyaeth i arddangos deunyddiau hysbysebu yn yr heneb. Cedwir yr hawl gan Cadw i wrthod unrhyw hysbysebu os bernir ei fod yn amhriodol neu y gallai niweidio enw da Gweinidogion Cymru.

11. Os bydd y gweithgaredd yn digwydd yn ystod oriau agor arferol, bydd y cyhoedd yn parhau i gael mynediad i'r Heneb. Rhaid i unrhyw ymyrraeth â mynediad arferol staff neu aelodau'r cyhoedd i'r ardaloedd sy'n cael eu ffilmio fod cyn lleied â phosibl a rhaid i Cadw gytuno ar hyn ymlaen llaw.

12. Os yw'r gweithgaredd yn digwydd y tu allan i oriau agor arferol gwneir trefniadau i ad-dalu staff Cadw sy'n bresennol. Pan fo tâl o'r fath yn berthnasol, bydd Cadw yn cadarnhau symiau a bydd Cadw yn eu hawlio gan y Llogwr.

13. Rhaid i'r Llogwr symud ei holl eiddo, gwastraff a sbwriel o'r Heneb. Cedwir yr hawl gan Cadw i adennill unrhyw gostau ychwanegol yr aethpwyd iddynt yn sgil symud o'r fath sy'n deillio o'r Llogwr neu o ganlyniad i'w weithgaredd.

14. Cedwir yr hawl gan Cadw i wahardd neu atal unrhyw weithgaredd y mae'n rhesymol ystyried ei fod yn anghyfiawnadwy o sarhaus neu sy'n debygol o fod felly.

15. Oni bai y rhoddir rheswm sy'n dderbyniol i Cadw, gall methu â defnyddio'r cyfleusterau a drafodwyd ar y dyddiad y cytunwyd arno olygu atebolrwydd am dâl.

16. Cedwir yr hawl gan Cadw i godi ffi am ddefnyddio'r Heneb neu i hawlio ad-daliad am golli derbyniadau mynediad.

17. Cedwir yr hawl gan Cadw i dynnu cynnig yn ôl os na fydd unrhyw un o'r amodau hyn yn cael eu diwallu.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government